

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Deisebau

**Sefydlu Tîm Criced Cenedlaethol i  
Gymru**

Mai 2013



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
[www.cynulliad.cymru.org](http://www.cynulliad.cymru.org)

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8421  
Ffacs: 029 2089 8021  
E-bost: [Pwyllgor.CCLL@cymru.gov.uk](mailto:Pwyllgor.CCLL@cymru.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Deisebau

**Sefydlu Tîm Criced Cenedlaethol i  
Gymru**

Mai 2013



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

## Y Pwyllgor Deisebau

Sefydlwyd y Pwyllgor Deisebau ar 15 Mehefin 2011. Ei rôl yw ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy a gyflwynir gan y cyhoedd. Rhaid i'r deisebau fod ar faterion y mae gan y Cynulliad y pŵer i weithredu arnynt. Mae'r broses ddeisebau yn galluogi'r cyhoedd i amlygu materion ac i ddylanwadu'n uniongyrchol ar waith y Cynulliad. Mae ei swyddogaethau penodol wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 23.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**William Powell (Cadeirydd)**  
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Russell George**  
Ceidwadwr Cymreig  
Sir Drefaldwyn



**Elin Jones**  
Plaid Cymru  
Ceredigion



**Joyce Watson**  
Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Fe oedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod y gwaith yma:



**Bethan Jenkins**  
Plaid Cymru  
Gorllewin De Cymru

# Cynnwys

---

<b>Rhagair y Cadeirydd.....</b>	<b>5</b>
<b>Crynodeb o Ystyriaeth y Pwyllgor .....</b>	<b>6</b>
Barn y gymuned griced .....	6
Dichonoldeb y cynnig .....	6
1. <b>Cyflwyniad .....</b>	<b>7</b>
2. <b>Y sefyllfa bresennol.....</b>	<b>8</b>
3. <b>Delwedd a symboliaeth.....</b>	<b>10</b>
4. <b>Cyfleoedd chwarae.....</b>	<b>12</b>
Dadleuon o blaid y cynnig.....	12
Dadleuon yn erbyn y cynigion .....	14
Cymhwysedd chwaraewyr yn erbyn argaeedd chwaraewyr .....	16
5. <b>Cyllid .....</b>	<b>17</b>
Brand Cymru .....	18
6. <b>Clwb Criced Morgannwg.....</b>	<b>20</b>
Cynnal gemau rhyngwladol yng Nghaerdydd .....	20
Cadw'r statws o sir dosbarth cyntaf.....	21
7. <b>Casgliad .....</b>	<b>22</b>
<b>Tystion .....</b>	<b>23</b>
<b>Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig .....</b>	<b>24</b>



## Rhagair y Cadeirydd

---

Mae gan y Pwyllgor Deisebau gylch gwaith eang a phell gyrhaeddol, ac rydym bob amser yn falch o ystyried materion nad oes cyfle i'r Cynulliad eu trafod mewn unrhyw fan arall, er eu bod yn bwysig. Mae'r ddeiseb hon yn fater o'r fath.

Mae dyfodol criced yng Nghymru, ac a ddylid cael tîm ar wahân ar gyfer Cymru, yn bwnc sy'n ennyn teimladau cryf ac angerddol o'r ddwy ochr. Wrth ystyried y mater hwn, rydym wedi ceisio sicrhau bod pob ochr wedi cael y cyfle i rannu'u barn.

Mae'n amlwg bod hwn yn fater cymhleth, a bod angen edrych ar lawer o faterion mewn mwy o fanylder, cyn y gellir gwneud penderfyniad ar sefydlu tîm criced i Gymru.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r dystiolaeth a ystyriwyd, a fydd, gobeithio, yn helpu i annog rhagor o drafodaeth ar ddyfodol Criced yng Nghymru.

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ddarparu dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar, ond yn arbennig i'r deisebydd sy'n amlwg yn teimlo'n angerddol am y mater hwn.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn agor y drafodaeth ac yn ennyn rhagor o ddadlau ynglŷn â dyfodol criced yng Nghymru. Cafodd yr adroddiad ei ysgrifennu yn yr ysbryd hwn. Edrychwn ymlaen at ddilyn y drafodaeth wrth iddi ddatblygu.

# **Crynodeb o Ystyriaeth y Pwyllgor**

---

Oherwydd natur y ddeiseb, nid ydym wedi gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru; fod bynnag, rydym wedi nodi dau faes y teimlwn a fyddai'n elwa o ragor o waith.

## **Barn y gymuned griced.**

Yn ystod ein hystyriaeth, dywedwyd wrthym fod hwn yn fater a oedd yn pryderu ac nad oedd yn pryderu'r gymuned griced yng Nghymru. Teimlwn y byddai gwerth sylweddol mewn gwneud rhywfaint o waith i ganfod beth yw barn mwyafrif o adrannau'r gymuned griced; chwaraewyr ar bob lefel ac oed, cefnogwyr a'r rheini sy'n rhedeg clybiau criced ledled Cymru.

Ymddengys mai Criced Cymru, gyda chefnogaeth bosibl gan Chwaraeon Cymru a / neu Fwrdd Criced Cymru a Lloegr fyddai yn y sefyllfa orau i gynnal ymarfer o'r fath. Dylid gwneud hyn mewn ffordd amhleidiol, a dylid cyhoeddi'r canlyniadau a sicrhau eu bod ar gael i bawb.

## **Dichonoldeb y cynnig**

Os bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn awgrymu awydd i sefydlu Tîm Criced i Gymru, dylid rhoi cefnogaeth i sefydliad priodol gynnal astudiaeth ddichonoldeb fanwl i edrych ar holl agweddau ymarferol sefydlu tîm Criced i Gymru.

## **1. Cyflwyniad**

---

1. Ym mis Hydref 2011, cafodd y Pwyllgor ddeiseb a oedd yn galw ar "Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gefnogi'r ymgyrch i sefydlu tîm criced cenedlaethol i Gymru." Casglodd y ddeiseb 187 o lofnodion.
2. Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus ar y ddeiseb, gyda sesiwn o amgylch y bwrdd gyda rhanddeiliaid allweddol i ddilyn ym mis Mawrth 2012.
3. Wrth gymryd dystiolaeth, gwelsom fod hwn yn fater sy'n ennyn teimladau cryf ac angerddol o'r ddwy ochr. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyflwyno'r dystiolaeth a glywsom, ond nid ydym yn dod i benderfyniad ar y ddeiseb.
4. Fodd bynnag, credwn fod y mater hwn yn haeddu rhagor o ystyriaeth, a gobeithio mai ein hadroddiad yw'r cam cyntaf i agor y ddadl gyhoeddus a gwleidyddol ar y mater hwn.

## 2. Y sefyllfa bresennol

---

5. Mae Criced Cymru, y corff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer criced hamdden iau a hŷn yng Nghymru, ar hyn o bryd yn aelod o Fwrdd Criced Cymru a Lloegr (ECB). Clwb Criced Morgannwg sy'n gyfrifol am y gêm broffesiynol yng Nghymru.
6. Mae tîm criced Lloegr yn cynrychioli Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, cyfeirir ato'n gyffredinol fel tîm 'Lloegr' ac mae ganddo ddelwedd Seisnig.
7. Mae chwaraewyr gwrywaidd hyd at 19 oed a chwaraewyr benywaidd o bob oed yn chwarae o dan faner Cymru. Eglurodd Criced Cymru fod timau cenedlaethol yn bosibl ar gyfer y lefelau hyn o'r gêm gan fod timau iau dynion a thimau hŷn y menywod yn chwarae yn erbyn timau sirol Lloegr yn hytrach na chriced rhyngwladol.<sup>1</sup>
8. Yn ei gohebiaeth i'r Pwyllgor, nododd Llywodraeth Cymru:

“... the subject of whether Wales has a national cricket team is a matter for Welsh Cricket in consultation with the England and Wales Cricket Board and is not a matter for Government.”<sup>2</sup>
9. Nododd Chwaraeon Cymru, sef prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â chwaraeon, fod penderfyniad o'r fath yn fater i Griced Cymru. Nodwyd nad yw Criced Cymru na Chlwb Criced Morgannwg yn cefnogi'r ddeiseb ar hyn o bryd. Dywedwyd hefyd y byddai'n rhaid i benderfyniad o'r fath fod ar sail yr hyn oedd orau i griced o ran cyfranogi a'r gêm elitaidd.<sup>3</sup>
10. Mae rhannau cyfansoddiadol eraill o'r DU, gan gynnwys yr Alban, Jersey a Guernsey yn cefnogi'u timau cenedlaethol eu hunain ac maent yn aelodau o'r Cyngor Criced Rhyngwladol (ICC), yn hytrach na'r ECB.
11. Dywedodd un ymatebydd fod sefyllfa bresennol criced yng Nghymru yn “anghyson” a bod y ffaith nad oedd Cymru'n aelod o'r Cyngor Criced Rhyngwladol (ICC) yn ddo'i hun yn ymwneud mwy â

---

<sup>1</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [167]

<sup>2</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18b Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth](#), 13 Mawrth 2012

<sup>3</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18e ymateb Chwaraeon Cymru](#), 13 Mawrth 2012

“hanes arbennig” criced yng Nghymru yn hytrach nag “unrhyw drefniadau cyfansoddiadol gwleidyddol.”<sup>4</sup>

---

<sup>4</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET \(4\)CRI 05 Yr Athro Rod Lyall](#)

### **3. Delwedd a symboliaeth**

---

12. Clywsom gan y deisebydd<sup>5</sup> a Jonathan Edwards AS<sup>6</sup> nad yw'r trefniant presennol yn cynrychioli Cymru.

"By playing for England a Welsh person is being asked to dress up as an English person and represent England. This is distinctly different from the British and Irish Lions, where all four nations are represented in the badge, and Team GB, which reflects all the nations that make up the UK."<sup>7</sup>

13. Cydnabu Chwaraeon Cymru fod mater dadleuol yn ymwneud â chyfeirio at y tîm fel tîm Lloegr yn unig, ac y gallai defnyddio 'ECB' fel yr acronym ar gyfer Bwrdd Criced Cymru a Lloegr "arwain at y cysyniad bod Cymru'n cael ei hanwybyddu."<sup>8</sup> Cydnabu Criced Cymru hyn, a dywedodd fod achos posibl i ailenu EBC yn Griced Cymru a Lloegr, gyda'r acronym CEW.<sup>9</sup>

14. Teimla'r deisebwyr fod newid o'r fath yn "amherthnasol."<sup>10</sup> Fodd bynnag, teimlwn y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i'r syniad hwn.

15. Clywsom adroddiadau croes o ran a oedd sefydlu tîm i Gymru yn fater o bryder i'r gymuned griced. Dywedodd y deisebydd wrthym:

"It is clear that the Welsh public want there to be a senior-male international team, but one playing other countries, not minor counties."<sup>11</sup>

16. Dywedodd Jonathan Edwards AS:

"The *Western Mail* conducted an opinion poll last year and 81% were in favour....The supporters and players want this.... Each

---

<sup>5</sup> Cynlliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18d Matthew Bumford Ymateb Deisebydd](#), 13 Mawrth 2012

<sup>6</sup> Cynlliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET \(4\)CRI 02 - Jonathan Edwards](#)

<sup>7</sup> Cynlliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18d Matthew Bumford Ymateb Deisebydd](#), 13 Mawrth 2012

<sup>8</sup> Cynlliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18e ymateb Chwaraeon Cymru](#), 13 Mawrth 2012

<sup>9</sup> Cynlliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18g Peter Hybart Criced Cymru, eitem 7](#)

<sup>10</sup> Cynlliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18d Matthew Bumford Ymateb Deisebydd](#), 13 Mawrth 2012

<sup>11</sup> ibid

and every one of the Glamorgan players wanted a national team for Wales and wanted to play on the highest level for Wales.”<sup>12</sup>

17. Er hynny, dywedodd Criced Cymru:

“This issue is not a concern for our member clubs and leagues. In the last month, we have held an annual general meeting, a meeting of all our senior leagues across Wales and a meeting of all our junior regions throughout Wales. It was an open agenda on each occasion and this issue was not raised.”<sup>13</sup>

18. Mae'n amlwg bod angen gwneud rhagor o waith ymchwil i gael barn chwaraewyr, cefnogwyr a rhanddeiliaid yn y gêm yng Nghymru. Nodir na chlywsom gan chwaraewr sy'n chwarae criced yn broffesiynol ar hyn o bryd a chan mai dyna'r bobl sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan newid o'r fath, mae'n hanfodol ein bod yn cael eu barn. I'r perwyl hwn, credwn fod angen gwneud rhagor o waith o ran asesu lefel y gefnogaeth i gynnig o'r fath.

---

<sup>12</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [132]

<sup>13</sup> Ibid [173]

## **4. Cyfleoedd chwarae**

---

19. Clywsom lawer o ddadleuon o blaid y ddeiseb, ond cafodd ei grynhau gan y deisebydd:

“I also believe that the real question is... whether they [Welsh cricketers] should have the opportunity to play for Wales.”<sup>14</sup>

20. Mae'r deisebwyr a'u cefnogwyr yn awgrymu y byddai tîm cenedlaethol yn rhoi dewis i chwaraewyr o Gymru chwarae i Gymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae'r rheini sy'n gwrthwynebu'r cynnig yn awgrymu nad yw hyn yn syml.

21. Roedd bron i bawb a rannodd eu barn a'u teimladau'n cydnabod bod mein prawf cymhwysedd chwaraewyr yn gymhleth a byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r ffordd y gallai hyn effeithio ar chwaraewyr o Gymru a'r dewisiadau a oedd ganddynt.

### **Dadleuon o blaid y cynnig**

22. Un o ddadleuon craidd y deisebwyr yw mai ychydig o chwaraewyr o Gymru sydd wedi chwarae i dîm criced Cymru a Lloegr. Ers i Forgannwg fod yn sir dosbarth cyntaf, dim ond 16 o chwaraewyr Gemau Prawf o Gymru allan o 650 sydd wedi chwarae i Loegr, gyda hyd yn oed llai wedi'u dewis ar gyfer gemau rhwngwladol undydd. Maent yn nodi bod hyn yn golygu nad yw chwaraewyr o Gymru'n cael y cyfle i chwarae criced rhwngwladol ar y lefel uchaf.<sup>15</sup>

23. Dywedodd Clwb Criced Morgannwg wrthym pe bai mwy o chwaraewyr o Gymru wedi bod yn chwarae yn nhîm Lloegr, efallai na fyddai galw am dîm ar wahân i Gymru. Cyfaddefodd fod “Morgannwg wedi tanberfformio”<sup>16</sup> yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

24. Yn ychwanegol at roi cyfleoedd i fwy o gricedwyr o Gymru chwarae criced rhwngwladol, gallai tîm criced i Gymru wella atyniad y gêm:

---

<sup>14</sup> Cynlliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18d Matthew Bumford Ymateb Deisebydd](#), 13 Mawrth 2012

<sup>15</sup> Cynlliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18d Matthew Bumford Ymateb Deisebydd](#), 13 Mawrth 2012

<sup>16</sup> Cynlliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [172] 13 Mawrth 2012

“Welsh youngsters, good at sport, are much more likely to persevere with cricket if there is a Wales national team than if the only National Representative team is England and thus grow to love the game whether they make the top or settle into club cricket.”<sup>17</sup>

25. Gan adeiladu ar hyn, dywedodd Jonathan Edwards AS wrth y Pwyllgor y gallai tîm i Gymru helpu chwaraewyr i ddatblygu'u gêm fel y gallent chwarae gemau prawf i Loegr (a fyddai'n chwarae ar lefel uwch na Chymru), ac y byddai rheolau cymhwysedd chwaraewyr yn caniatau hyn:

“Playing for Wales would be a stepping stone in their development.”<sup>18</sup>

26. Er, gellid gweld hyn fel tanseilio dadleuon y deisebydd, os mai un o fanteision tîm i Gymru yw helpu i ddatblygu chwaraewyr ar gyfer Lloegr.

27. Pe bai Criced Cymru'n torri'n rhydd o'r ECB ac yn ymaelodi'n uniongyrchol â'r ICC, byddai'n rhaid i dîm Cymru wneud cais am aelodaeth Gyswilt neu Ohebol o'r ICC. Ni allai fod yn aelod llawn o'r ICC ar unwaith. Dywedwyd fod yn rhaid i wledydd fod yn Aelodau Cyswilt am dair blynedd fel rheol er mwyn bod yn Aelodau Gohebol, ond bod darpariaeth ar gael i hepgor hynny.<sup>19</sup>

28. Dywedodd Mahendra Mapagunaratne wrthym fod yr Alban ac Iwerddon wedi osgoi Aelodaeth Gyswilt ac wedi dod yn Aelodau Gohebol ar unwaith, gan nodi bod Cymru'n “bodloni Aelodaeth Ohebol o'r ICC yn rhwydd o safbwyt seilwaith a gweinyddu.”<sup>20</sup>

29. Tynnodd nifer o dystion sylw at y ffaith bod y gefnogaeth i wreiddiau a seilwaith criced yng Nghymru yn fwy nac ydyw yn rhai o'r

---

<sup>17</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET \(4\)CRI 01 - Michael Blumberg](#)

<sup>18</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [153] 13 Mawrth 2012

<sup>19</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET \(4\)CRI 05 Yr Athro Rod Lyall](#)

<sup>20</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET \(4\)CRI 10 - Mahendra Mapagunaratne](#)

gwledydd sy'n Aelodau, ac yn debyg i Seland Newydd, sy'n aelod llawn o'r ICC.<sup>21</sup>

### Dadleuon yn erbyn y cynigion

30. Dywed gwrthwynebwyr y cynigion fod cricedwyr Cymru sy'n cael eu dethol i chwarae i Loegr ar hyn o bryd yn cael y cyfle i chwarae yn erbyn gwledydd criced gorau'r byd, lle na fyddai tîm o Gymru'n cael yr un cyfleoedd. Mae hwn yn bwynt dadleuol.

31. Byddwn yn edrych ar fater Clwb Criced Morgannwg a chriced gwladol ym mhennod chwech ac yn canolbwyntio ar gyfleoeddd rhyngwladol yn awr.

32. Dywedodd Criced Cymru wrthym y byddai ymaelodi â'r ICC yn cael effaith ar bob lefel o'r gêm yng Nghymru:

"If we were in membership of the ICC rather than the ECB then we would only be able to play a limited number of fixtures against the likes of Ireland, Scotland and the Netherlands who are not as strong as teams like Yorkshire, Lancashire and Warwickshire. Women's and girl's fixtures would be even more adversely affected."<sup>22</sup>

33. Fel yr amlygwyd yn 27-28 mae cysail i Gymru fod yn Aelodau Cyswllt o'r ICC. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym ei bod yn debygol y byddai'n rhaid i Gymru fynd i Is-adran Saith o Gynghrair Byd yr ICC, a fyddai'n golygu chwarae yn erbyn gwledydd fel Papwa Gini Newydd.<sup>23</sup> Byddai'n rhaid i Gymru weithio'i ffordd drwy'r Is-adrannau, ac mae barn amrywiol ar ba mor hir y gallai hyn ei gymryd. Er bod y deisebwyr wedi nodi na fyddai hyn yn cymryd llawer iawn o amser, nid oes unrhyw sicrwydd o hynny. Mae gwrthwynebwyr y cynigion wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai hyn yn golygu gostwng safon criced rhyngwladol y byddai gan chwaraewyr o Gymru'r cyfle i gymryd rhan ynddo.

---

<sup>21</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET \(4\)CRI 02 - Jonathan Edwards](#) ac [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET \(4\)CRI 01 Michael Blumberg](#)

<sup>22</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18q Peter Hybart, Criced Cymru, eitem 7](#), 13 Mawrth 2012

<sup>23</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [148] 13 Mawrth 2012

34. Yn ychwanegol at hyn, clywsom nad oes cyfle<sup>24</sup> o ran criced rhyngwladol o'r radd flaenaf. Ar hyn o bryd, mae 10 aelod llawn o'r ICC, sef gwledydd y gemau prawf, a chlywsom ei bod yn "annhebygol" y caiff y gwledydd prawf newydd statws gan yr ICC.<sup>25</sup> Dywedodd Criced Morgannwg wrthym:

"So, the best that Wales could hope for would be to battle it out with Ireland, Scotland, Kenya and so on every four years to try to get a place in the World Cup."<sup>26</sup>

35. Golyga hyn hyd yn oed pe bai tîm Cymru'n symud drwy'r cyngreiriau'n gyflym, nid oes sicrwydd y gallai ymuno â'r cenhedloedd sy'n chwarae gemau prawf ar unrhyw adeg yn y dyfodol agos na'r dyfodol canolig.

36. Tynnodd Chwaraeon Cymru sylw at y ffaith:

"Other small cricketing nations (e.g Ireland and Scotland) are thought to struggle for meaningful, appropriate competition between major events (i.e the Cricket World Cup)."<sup>27</sup>

37. Er hynny, clywsom o fwy nag un ffynhonell y gallai tîm Cymru roi cyfleoedd i'r Alban ac Iwerddon "ymuno â Chymru mewn twrnamaint" debyg i Gynghrair Geltaidd rygbi.<sup>28</sup>

38. Dywedodd Criced Cymru y byddai'r ffactorau hyn yn effeithio ar chwaraewyr sy'n dewis chwarae i Gymru.

"If Cricket Wales was to join the ICC instead of the ECB then the most talented Welsh cricketers would seek to join English Counties so as to be eligible for England. It would therefore be extremely difficult for Wales to develop a strong team."<sup>29</sup>

---

<sup>24</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET\(4\)CRI 05 Yr Athro Rod Lyall](#)

<sup>25</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [148] 13 Mawrth 2012

<sup>26</sup> *ibid*

<sup>27</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18e ymateb Chwaraeon Cymru](#), 13 Mawrth 2012

<sup>28</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET\(4\)CRI09 Neil Drysdale](#) a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET\(4\) CRI 10 Mahendra Mapagunaratne](#)

<sup>29</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18q Peter Hybart, Criced Cymru, eitem](#) 7, 13 Mawrth 2012

39. Felly gallai'r diffyg cyfleoedd i chwarae criced o'r radd flaenaf effeithio ar ddatblygiad chwaraewyr ac ar nifer y chwaraewyr a fyddai ar gael i chwarae i dîm Cymru. Fodd bynnag, fel gyda'r dadleuon o blaid y cynigion mae llawer o hyn ar sail damcaniaethau, ac felly ni allwn ddod i farn.

### **Cymhwysedd chwaraewyr yn erbyn argaeledd chwaraewyr**

40. Mae'r rheolau'n ymwneud â chymhwysedd chwaraewyr yn gymhleth, ond clywsom y gallai chwaraewyr gael dewis i bwy yr hoffent chwarae; Cymru neu Loegr. (Mewn gwirionedd, dyma'n wir graidd y ddeiseb, yr angen i roi dewis).

41. Clywsom nad oes sail i'r pryderon am dîm Cymru'n cymryd holl chwaraewyr Morgannwg ar gyfer gemau rhyngwladol gan nad yw'r tymor criced rhyngwladol yr un fath â haf Lloegr, ac nid Morgannwg yn unig fyddai'n darparu chwaraewyr:

“Suffice to say Glamorgan never complains when Glamorgan players are on England duty!”<sup>30</sup>

42. Mae'n ein taro bod angen gwneud rhagor o waith manwl i ymchwilio i'r materion hyn mewn mwy o fanylder.

---

<sup>30</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET \(4\)CRI 10 - Mahendra Mapagunaratne](#)

## **5. Cyllid**

---

43. Fel gyda'r rhan fwyaf o faterion, mae cyllid yn allweddol. Clywsom y daw cyllid ar gyfer criced Cymru'n sylfaenol gan yr ECB drwy dair prif ffrwd: gemau rhwngwladol yn stadiwm SWALEC; taliadau uniongyrchol i Glwb Criced Morgannwg; a buddsoddi mewn criced ar lawr gwlad. Yn 2011 daeth hyn i £2.4 miliwn.<sup>31</sup>

44. Roedd cyllid ychwanegol o £227,200 ar gael i gynorthwyo gydag amrywiaeth o raglenni ariannu clwb a chymuned, a £479,552 o arian cyfalaf i adeiladu ac i adnewyddu cyfleusterau.<sup>32</sup>

45. Mae Clwb Criced Morgannwg, Chwaraeon Cymru a Chriced Cymru i gyd wedi dweud mai cyllid yw un o'r prif rwystrau. Dywedodd Chwaraeon Cymru wrthym ei bod "bron yn amhosibl cael" tîm i Gymru oni bai bod "cyllid digolledu sylweddol ar gael."<sup>33</sup> Dywedodd hefyd ei fod yn dibynnu ar gemau prawf am gysondeb o ran ariannu'r gêm.<sup>34</sup>

46. Er nad oedd hon yn farn a oedd yn cael ei chydnabod gan bawb, gyda Mohammed Ashgar AC yn dweud ei bod yn "hollo! anghywir" i ddweud bod gemau prawf yn hanfodol ar gyfer ariannu, gan ddefnyddio Uwch Gynghrair India fel enghraifft.<sup>35</sup>

47. Teimlai'r deisebwyr ei bod yn gamsyniad i honi y byddai criced yng Nghymru mewn sefyllfa waeth yn y tymor hwy, ac roeddent yn pryderu bod pryderon ariannol yn cael y lle blaenaf ar draul pwysigrwydd tîm cenedlaethol i Gymru. Rhoesant enghreifftiau o dimau yr Alban, Iwerddon a thimau'r ynysoedd, lle'r oedd yr ECB wedi parhau i ddarparu cyllid, a gallai Cymru gael mynediad at fwy o gronfeydd yn uniongyrchol drwy'r ICC:

"It is, therefore, likely that Wales will not be financially worse off than before we had a team, meaning that rather than being

---

<sup>31</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18c Gohebiaeth gan Fwrdd Criced Cymru a Lloegr, eitem 7](#), 13 Mawrth 2012

<sup>32</sup> Ibid

<sup>33</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [134] 13 Mawrth 2012

<sup>34</sup> Ibid [176]

<sup>35</sup> Ibid [179]

reliant on English funds alone we will benefit from a mixture of ECB and ICC funding.”<sup>36</sup>

48. Dywedodd Jonathan Edwards AS wrthym y byddai'n bosibl cael “benthyciadau pontio”<sup>37</sup> gan yr ECB, a chododd Michael Blumberg hefyd y posibilrwydd o “leihad graddol” yn y cyllid gan yr ECB.<sup>38</sup>

49. Dywedodd yr ECB wrthym:

“In a similar vein to Scotland and Ireland, there would be no funding from England to Cricket Wales as all relationships would have to be with ICC and Wales would in effect become a competitor nation to England.”<sup>39</sup>

50. Felly er ei bod yn amlwg na fyddai rhagor o gyllid ar gael gan yr ECB, mae rhywfaint o ddryswch yn parhau o ran a ellid rhoi benthyciadau neu drefniadau pontio ar waith. Mae'n amlwg bod cyllid yn elfen bwysig iawn o'r mater hwn, ac ymddengys y byddai angen gwneud rhagor o waith dichonoldeb er mwyn deall pa fath o fwlich ariannu fyddai'n bodoli a sut y gellid cau'r bwlich hwnnw.

51. Yn ychwanegol at golli cyllid, roedd pryder hefyd y byddai Criced Cymru'n colli'r arbenigedd a'r cymorth gweinyddol sy'n cael ei ddarparu gan yr ECB. Gallai hyn gynnwys mentrau fel y rhaglen addysg hyfforddwyr, sydd ar lefel uwch na rhaglen yr ICC.<sup>40</sup>

### **Brand Cymru**

52. Ar wahân i'r mater o ariannu uniongyrchol, clywsom gan nifer o bobl y gallai tîm criced cenedlaethol i Gymru roi sylw byd-eang i “Frand Cymru”:

“Commercial enterprises in Wales would be willing to sponsor matches by a Welsh international cricket team when they have

---

<sup>36</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18d Matthew Bumford Ymateb Deisebydd](#), 13 Mawrth 2012

<sup>37</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [130] 13 Mawrth 2012

<sup>38</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET \(4\)CRI 01 - Michael Blumberg](#)

<sup>39</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18c Gohebiaeth gan Fwrdd Criced Cymru a Lloegr, eitem 7](#), 13 Mawrth 2012

<sup>40</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18q Peter Hybart, Criced Cymru, eitem 7](#), 13 Mawrth 2012

the opportunity to advertise to billions of eyeballs on television in the Indian sub-continent.”<sup>41</sup>

53. Cefnogwyd hyn gan Jonathan Edwards AS, a dynnodd sylw at y ffaith bod cyrhaeddiad posibl criced yn uwch na chwaraeon eraill a chwaraeir yng Nghymru. Nododd hefyd fod India wedi'i chlustnodi fel ardal economaidd allweddol ar gyfer datblygu cysylltiadau â'r DU.<sup>42</sup>

54. Yn ychwanegol at hynny, tynnwyd sylw at y cyfle i wneud “cytundebau teledu proffidiol”, a gallai criced yng Nghymru elwa o gytundebau o'r fath, rhywbeth nad yw'n digwydd ar hyn o bryd.<sup>43</sup>

55. Mae materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â sefyllfa ariannol Clwb Criced Morgannwg a chynnal gemau prawf yn Stadiwm SWALEC y down atynt yn yr adran nesaf.

---

<sup>41</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET \(4\)CRI 10 - Mahendra Mapagunaratne](#)

<sup>42</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET \(4\)CRI 02 - Jonathan Edwards](#)

<sup>43</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET \(4\)CRI 10 - Mahendra Mapagunaratne](#)

## **6. Clwb Criced Morgannwg**

---

56. Clwb Criced Morgannwg yw'r unig dîm criced proffesiynol yng Nghymru. Nid yw'n cytuno â'r ddeiseb. Mae'n nodi bod safonau chwarae ym Morgannwg yn llawer uwch nag y byddent mewn tîm cenedlaethol o Gymru, a bod chwaraewyr yn cael y cyfle i gyrraedd brig y gêm ar hyn o bryd.<sup>44</sup>

### **Cynnal gemau rhyngwladol yng Nghaerdydd**

57. Mae Clwb Criced Morgannwg hefyd yn croesawu gemau rhyngwladol gartref, yn stadiwm SWALEC. Mae'n nodi y byddai'r cytundeb llwyfannu i groesawu gemau Lloegr yn dod i ben pe bai Cymru'n terfynu'i haelodaeth o'r ECB, ac y byddai:

“The financial impact for Glamorgan would mean that we would be placed into administration tomorrow; that is the real truth.”<sup>45</sup>

58. Dywedwyd fod y proffil dyled sydd gan y clwb ar hyn o bryd yn golygu na all oroesi heb griced rhyngwladol.<sup>46</sup>

59. Fodd bynnag, nododd y deisebwyr ei bod yn “anghywir ac yn annerbyniol” bod Morgannwg yn ceisio “bygwth gweddill y wlad am arian” gyda bygythiadau o'r fath am fynd i ddwylo gweinyddwyr.<sup>47</sup>

60. Cytunodd Jonathan Edwards AS na ellir peryglu statws Gerddi Soffia fel lleoliad gemau prawf, ond dywedodd nad oes unrhyw reswm pam na all Stadiwm SWALEC barhau i groesawu gemau Lloegr. Rhoddodd enghreifftiau fel Abu Dhabi yn croesawu gemau rhyngwladol.<sup>48</sup>

61. Tynna'r deisebwyr sylw at y ffaith y byddai Stadiwm SWALEC yn croesawu gemau rhyngwladol yn fwy rheolaidd nag y mae'n ei wneud ar hyn o bryd pe bai gan Gymru dîm ei hun.<sup>49</sup>

---

<sup>44</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18f Alan Hamer Criced Morgannwg eitem 7](#), 13 Mawrth 2012

<sup>45</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [123] 13 Mawrth 2012

<sup>46</sup> Ibid [144]

<sup>47</sup> Ibid [173]

<sup>48</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [Ymateb i'r Ymgynghoriad PET \(4\)CRI 02 - Jonathan Edwards](#)

<sup>49</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [114] 13 Mawrth 2012

62. Nid ydym mewn sefyllfa i feirniadu'r gwahaniaethau barn hyn, ond mae'n ategu ein barn bod angen gwneud rhagor o waith ymchwil ynghylch a yw'r camau gweithredu y mae'r ddeiseb yn galw amdanynt yn ddichonadwy.

### Cadw'r statws o sir dosbarth cyntaf

63. Mae pawb yn gytûn ar un pwnc, sef bod yn rhaid i Forgannwg gadw'i statws fel sir dosbarth cyntaf. Er hynny, cred Chwaraeon Cymru y gallai sefydlu tîm cenedlaethol i Gymru achosi i Forgannwg fod yn agored i niwed, pe bai symudiad i leihau nifer y clybiau criced sirol.<sup>50</sup>

64. Fodd bynnag, dywed Morganwg mai trafodaeth academaidd yw hon oherwydd:

"Whether the England and Wales Cricket Board or the other counties would want to continue playing against Glamorgan would be a hypothetical question, because we would not exist, because we would not have any money."<sup>51</sup>

65. Dywedodd yr ECB wrthym:

"Should Glamorgan continue to operate as a County in the way they do now then they would be able to apply to play in ECB competitions."<sup>52</sup>

66. Er hynny, maent yn mynd yn eu blaenau i dynnu sylw at y ffaith y gellid cael cymhlethdodau ychwanegol o ran sut y gallai hyn effeithio ar gymhwysedd chwaraewyr ac i bwy y byddai chwaraewyr yn gymwys i chwarae iddynt.

---

<sup>50</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion [141] 13 Mawrth 2012

<sup>51</sup> Ibid [144]

<sup>52</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [PET\(4\)-05-12 p18c Gohebiaeth gan Fwrdd Criced Cymru a Lloegr, eitem 7](#), 13 Mawrth 2012

## **7. Casgliad**

---

67. Mae'n amlwg bod teimladau cryfion o'r ddwy ochr i'r ddadl hon. Nid ydym wedi cael amser i ymchwilio i'r holl faterion mewn manylder, ond trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn, gobeithio y bydd yn cychwyn trafodaeth ehangach a fydd yn cysylltu â phawb sydd â diddordeb neu rôl i'w chwarae mewn criced yng Nghymru.

68. Ymddengys mai person o'r tu allan i griced yng Nghymru a lwyddodd i dynnu sylw at hanfod y mater hwn, a nodi bod y ddwy ochr yn 'gywir' mewn ffordd:

"Is the sport in Wales prepared to forego the funding and match-hosting benefits which accrues from being part of the ECB system in order to reach the sunlit uplands of future international success at some indistinct point in the future? It seems to me this is the rub."<sup>53</sup>

69. Rydym wedi nodi'r angen am fwy o ymchwil i'r dymuniad a'r dichonoldeb o sefydlu tîm Cymru. Heb y wybodaeth hon, mae'n amhosibl dod i benderfyniad sydd wedi'i wreiddio mewn tystiolaeth a ffaith. Rydym yn deall y caiff tystiolaeth a ffaith yn aml eu dirymu gan angerdd a chariad gyda chwaraeon. Ond mae angen gwneud penderfyniad mor fawr, a allai gael effaith enfawr ar ddyfodol chwaraeon, heb emosiwn ac os meiddia gwleidyddion ddweud, heb wleidyddiaeth.

---

<sup>53</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deisebau, [12.04.26 Criced Iwerddon i Gadeirio, eitem 5](#), 2 Gorffennaf 2012

## Tystion

---

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau dystiolaeth lafar yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Id=1310>

*13 Mawrth 2013*

Matthew Bumford              Prif Ddeisebydd

Mohammad Asghar AC

Jonathan Edwards AS

Dr Huw Jones              Chwaraeon Cymru

Alan Hamer              Criced Morgannwg

Peter Hybart              Criced Cymru

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

---

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ielIssueDetails.aspx?Id=4667&Opt=3>

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, Llywodraeth Cymru	NA
Michael Blumberg	PET(4)CRI 01
Jonathan Edwards AS	PET(4)CRI 02
Matthew Maynard	PET(4)CRI 03
Chwaraeon Cymru	PET(4)CRI 04
Yr Athro Rod Lyall	PET(4)CRI 05
Criced Morgannwg	PET(4)CRI 06
Criced Cymru	PET(4)CRI 07
Matthew Bumford	PET(4)CRI 08
Neil Drysdale	PET(4)CRI 09
Mahendra Mapagunaratne	PET(4)CRI 10
Bwrdd Criced Cymru a Lloegr	NA
Criced Iwerddon	NA
Criced yr Alban	NA